

Hysbysiad Cosb Sefydlog ar gyfer absenoldebau anawdurdodedig

Mae presenoldeb a phrydlondeb rheolaidd disgyblion yn yr ysgol yn ofyn statudol ac angenrheidiol ar gyfer disgyblion gael manteisio'n llawn ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt. Yn ôl y gyfraith, mae'n drosedd os yw rhiant/gofalwr yn methu sicrhau presenoldeb eu plentyn yn yr ysgol a bod yr absenoldeb hwnnw heb ei awdurdodi gan yr ysgol.

Mae adrannau 444A a 444B Deddf Addysg 1996 yn caniatáu bod rhai mathau o absenoldebau anawdurdodedig gael sylw pellach dan orchymyn rhybudd cosb.

Gall hyn arwain at ysgol gyfeirio **"absenoldebau anawdurdodedig"** i sylw'r Awdurdod Lleol yn gofyn am anfon Hysbysiad Cosb Sefydlog i'r cartref.

Cosbau am absenoldebau anawdurdodedig

Cyfnod	Un plentyn	Dau blentyn
Talu o fewn 28 diwrnod	£60 am bob Hysbysiad Cosb Sefydlog	£60 am bob plentyn = £120
Ar ôl 28 diwrnod ac o fewn 42 diwrnod	£120 am bob Hysbysiad Cosb Sefydlog	£120 am bob plentyn = £240
Ar ôl 42 diwrnod	Bydd peidio â talu hysbysiad cosb sefydlog yn arwain at weithdrefnau erlyn a gyflwynir o dan adran 444 o Ddeddf Addysg 1996. "Methu sicrhau presenoldeb yn yr ysgol"	Bydd peidio â talu hysbysiad cosb sefydlog yn arwain at weithdrefnau erlyn a gyflwynir o dan adran 444 o Ddeddf Addysg 1996. "Methu sicrhau presenoldeb yn yr ysgol"

Bydd y rhybuddion cosb sefydlog yn cefnogi ALI ac ysgolion i sicrhau fod rhieni/gofalwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol i anfon eu plant yn rheolaidd i'r ysgol. Mae'r mesurau hyn yn llym ond credwn fod presenoldeb rheolaidd a phresenoldeb uchel o blaid yr hyn sydd orau i ddisgyblion ac yn fodd iddynt fanteisio'n llawn ar eu cyflawniadau a'u mwynhad o fod yn yr ysgol.

Mae'r polisi yma yn adlewyrchiad cywir o'r ddeddfwriaeth gyfredol ac fel ysgol, mae gennym ddyletswydd i'ch hysbysu chwi fel rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid.

- Mae manylion a gwybodaeth pellach ar gael gan Cyngor Sir Gwynedd
- Llywodraeth Cymru

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130925-guidance-regular-non-attendance-en.pdf>

Fixed Penalty Notice for unauthorised absence

Regular and punctual attendance of pupils at school is both a legal requirement and essential for pupils to maximise the educational opportunities available to them. In law, an offence occurs if a parent/carer fails to secure their child's attendance at school and that absence is not authorised by the school.

Sections 444A and 444B of the Education Act 1996 provide that certain cases of unauthorised absence can be dealt with by way of a penalty notice.

This may lead to the school referring “**unauthorised school absences**” to the Local Authority requesting a Fixed Penalty Notice to be issued.

Penalties for unauthorised absence

Timeline	One child	Two Children
Paid within 28 days	£60 per Fixed Penalty Notice	£60 per child = £120
After 28 days and before 42 days	£120 per Fixed Penalty Notice	£120 per child = £240
After 42 days	Non-payment of a penalty notice will trigger prosecution procedures brought under section 444 of the Education Act 1996. “Failing to secure attendance at school”	Non-payment of a penalty notice will trigger prosecution procedures brought under section 444 of the Education Act 1996. “Failing to secure attendance at school”

The penalty notice measures will support LAs and schools in ensuring parents/carers fulfil their responsibilities by ensuring their children regularly attend school. These measures are severe but we believe that regular and high attendance is in every pupil’s best interests and helps to maximise their achievements and enjoyment of school.

This Policy reflects accurately the current legislation and as a school, we have a duty to point this out to parents/carers/guardians.

- Further details and background information can be obtained from Gwynedd County Council
- Welsh Government

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130925-guidance-regular-non-attendance-en.pdf>